**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sian Gwenllian AC

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Ionawr 2018

Annwyl Siân

Rwy'n ysgrifennu atoch i ateb y cwestiwn a godoch yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Tachwedd ynghylch diffyg arwyddion a chyhoeddiadau Cymraeg ar wasanaethau rheilffyrdd Great Western Railway.

Nid yw'r cyfrifoldeb dros wasanaethau'r cwmni hwn wedi'i ddatganoli. Serch hynny, rydym wedi sicrhau bod yr Adran Drafnidiaeth yn ymwybodol o bwysigrwydd darparu gwybodaeth yn Gymraeg ar wasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae swyddogion Great Western Railway wedi cynnal trafodaethau'n ddiweddar â Chomisiynydd y Gymraeg a swyddogion Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn arwain at welliant o ran defnydd y Gymraeg gan y cwmni.

Bydd y cwmni nesaf sy'n cynnal gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau yn cysylltu'n ysgrifenedig ac ar lafar â'r cyhoedd ac â theithwyr yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cynigir cyfathrebu â'r cwsmeriaid ynglŷn ag ymholiadau trên, ac mewn ymateb i gysylltiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, a lle mae staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, bydd gwasanaeth yn Gymraeg ar gael mewn derbynfeydd gorsafoedd a swyddfeydd tocynnau. Lle nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, bydd staff sy'n siarad Cymraeg ar gael dros y ffôn neu drwy dechnolegau presenoldeb o bell. Rydym yn disgwyl i'r cwmni gynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i ganran o'i staff sy'n dod wyneb yn wyneb â chwsmeriaid.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.